

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **14 Rhagfyr 2015** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

Cymerwyd y weddi gan Cyng. Phil Jones

1-12/15: Presennol

Cadeirydd Cyng. W A Evans

Is-Gadeirydd Cyng. R Cadwalader

Cyng. Wayne Roberts

Cyng. Dr E Tudor Jones

Cyng. R T Price

Cyng. Phil Jones

Cyng. Elizabeth George

2-12/15: Ymddiheuriadau

Cyng. Eirwyn Williams, Sian Williams, Liz Regan, Henry Jones a Dafydd Lloyd.

3-12/15: Datgan diddordeb

Cyng. E Tudor Jones – eitem 7: cais cynllunio C15/1283/35/LL

4-12/15: Cadarnhau cofnodion mis Tachwedd

Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

5-12/15: Materion yn codi o gofnodion mis Tachwedd

- Eitem 13-11/15 – llythyr oddi wrth yr Aelod Seneddol

Gwnaeth yr A.S. gadarnhau bod y llythyrwr ond yn galw am roi cyfyngiad o 20 m.y.a. ar hyd y promenâd yng Nghriccieth yn unig. Roedd Cyngor Gwynedd wedi ymateb gyda'r eglurhad nad yw gosod cyfyngiad o'r fath yn addas ar gyfer pob safle, ond y byddant yn asesu pa mor effeithiol fyddai gosod cyfyngiad yn y lleoliad dan sylw ac yna yn cysylltu yn ôl gyda'r Cyngor Tref gydag unrhyw argymhellion.

6-12/15: Adrodd yn ôl ar gyfarfodydd diweddar

- a. Cyfarfod gyda'r A.C., Dafydd Elis Thomas - i drafod ymateb y Cyngor Sir i wrthwynebiadau i geisiadau cynllunio gan gynghorau cymuned.

Cafwyd gwrandawriad teg gan yr A.C. i bryderon y cynrychiolwyr; bydd yn gwneud ymchwiliadau ymhellach. Nodwyd efallai y gall deddf newydd - pan fydd yn weithredol - newid y sefyllfa yn y dyfodol.

- b. Cyfarfod maes: trafndiaeth – ger Llwyn Brith a Gwesty'r Lion.

Derbyniwyd gadarnhad gan y swyddog y bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal arolwg o'r llif traffig ger Llwyn Brith/y feddygfa ac yn edrych ar ffyrdd o wella diogelwch ar y ffordd mewn i Griccieth o gyfeiriad Pwllheli. Bydd yn cyflwyno argymhellion cyn gynted ag y bo modd.

Cyflwynwyd argymhellion Cyngor Gwynedd ar gyfer lleoli llinellau melyn dwbl newydd ger Gwesty'r Lion a Salem Terrace.

Penderfyniad: i dderbyn argymhellion Cyngor Gwynedd parthed y llinellau melyn.

- c. Cyfarfod i drafod 'Stomp Fwyd/Foodslam', Dylan's, adeg Gŵyl Criccieth.

Adroddwyd y bydd yna 40 o stondinau, ystod o adloniant a pherfformiadau llwyfan, gyda'r gweithgareddau yn cael eu cynnal o ganol dydd tan 6 y.h., a'r perfformiadau llwyfan yn parhau tan 10 y.h. Amcangyfrifir y bydd o gwmpas 1,500-2,000 yn ymweld â'r digwyddiad. Byddai rheolwr digwyddiadau Dylan's yn gyfrifol am y trefniadau, gan gynnwys y glanhau, diogelwch (cwmni preifat) a'r rheolaeth traffig.

Penderfyniad: derbyn yr wybodaeth ac i ysgrifennu at Dylan's er mwyn sicrhau y byddant yn diweddarau'r Cyngor Tref ar y cynlluniau, i ofyn iddynt i gyhoeddi deunydd marchnata/posteri yn gwbl ddwyieithog yn unol â threfn yr ŵyl, ac i lywio'r cyhoedd i barcio ym mhrif maes parcio'r dref.

7-12/15: Ceisiadau cynllunio

Cais C15/1253/35/HT

Gwaith uwchraddio offer telegyfathrebu – Penystumlllyn, LL52 OPS

Penderfyniad: I gefnogi'r cais

Cais C15/1283/35/LL

Codi adeilad unllawr newydd i'w ddefnyddio fel modurdy a storfa gan Sefydliad y Bâd Achub.

Penderfyniad: I gefnogi'r cais

8-12/15: Llythyr oddi wrth Gyngor Gwynedd yn cyflwyno'r posibilrwydd i gynghorau cymuned i gymryd mwy o gyfrifoldeb am wasanaethau

Cyflwynwyd rhestr o wasanaethau potensial yn sgîl toriadau arfaethedig gan Gyngor Gwynedd. Adroddwyd y bydd y toriadau yma yn cymryd lle dros y dair blynedd nesaf.

Penderfynwyd i beidio ymateb i'r llythyr gan yr oedd yn anodd gwneud sylwadau heb fwy o wybodaeth a chyn bod canlyniadau ymgynghoriad Her Gwynedd yn hysbys.

9-12/15: Cyllideb 2016-17

Penderfyniad: I dderbyn y gyllideb heb newid.

10-12/15: Difrod i'r morglawdd – o flaen Maes Aberistedd a Min y Môr

Roedd y contractwr bellach wedi gosod gorchudd dros-dro i ddiogelu'r twll tan fod y gwaith parhaol yn cael ei wneud. Derbyniwyd adroddiad gan Gyngor Gwynedd mai'r nod oedd i gwblhau'r gwaith cyn y Nadolig neu yn gynnar yn y flwyddyn newydd fan bellaf, yn ddibynnol ar y tywydd.

Derbyniwyd yr wybodaeth.

11-12/15: Grisiau Talymage

Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd bod arian wedi ei benodi i wella cyflwr a golwg y grisiau ac i godi canllaw newydd a fydd yn cyd-fynd â gofynion ar gyfer pobl gyda nam golwg. Y bwriad yw gwneud y gwaith cyn diwedd Mawrth.

12-12/15: Goleuadau'r castell

Lleisiwyd pryder nad oedd goleuadau'r castell yn ddiweddar i weld mor gryf ac effeithiol â chynt.

Penderfyniad: I gysylltu â Cadw er mwyn sefydlu beth yw'r broblem ac i geisio gwella'r goleuadau.

13-12/15: Cymynrodd J T Roberts

Cytunwyd i drefnu cyfarfod gydag Age Cymru i dderbyn adroddiad am y gwaith yng Nghriccieth .

14-12/15: Cofeb y French Commandos

Roedd y gofeb bellach yn barod a derbyniwyd cyngor gan Cerrig y bydd yn ddoeth aros tan yn gynnar yn gwanwyn cyn ei gosod er mwyn ceisio osgoi y gwaethaf o'r tywydd stormus.

Derbyniwyd y cyngor a bydd y clerc yn gwneud trefniadau gyda Cerrig yn y flwyddyn newydd.

15-12/15: Rhaglen waith trafndiaeth a phrifyrdd Cyngor Gwynedd (Rhagfyr 2015)

Newid colofnau (gydag SPower) a newid lanteri yn Nghriccieth ac ar ochrau'r dref.

Derbyniwyd yr wybodaeth.

16-12/15: Adfywio Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth – Heddlu Gogledd Cymru

Gwahoddiad i gynrychiolwyr cynghorau cymuned i fod yn aelodau o grwpiau llywio newydd ac i gofrestru fel cydlynwyr yn lleol. Derbyniwyd yr wybodaeth.

17-12/15: Ymgynghoriad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Mynychwyd sesiwn ymgynghori gan un aelod – nid oedd unrhyw wybodaeth berthnasol i adrodd yn ôl.

18-12/15: Cydnabyddiaeth i'r cyn-clerc

Penderfyniad: i wneud rhodd o £500 mewn cydnabyddiaeth o waith y clerc dros y ddeng mlynedd diwethaf.

19-12/15: Derbyniadau

Dim derbyniadau i law.

20-12/15: Taliadau

• Torch Sul y Cofio	£ 20.00
• Glasfryn – coeden Nadolig	£239.46
• Atkin Groundworks – casglu a gosod y goeden	£477.60
• Cyflog y clerc	£306.74
• Cyllid y Wlad (PAYE)	£ 76.60

Gan fod y gost o osod y goeden i weld braidd yn uchel, penderfynwyd y dylid gofyn am brisiau gan gwmnïau eraill ym 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 11 Ionawr 2016**

**** Bydd y rhaglen yma yn cau 30 Rhagfyr 2015 ****
